OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2245 (Cy.209)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Rheoliadau Tatws sy'n Tarddu o'r Aifft (Cymru) 2004

Wedi'i wneud	- -	*31 Awst 2004*
Yn dod i rym	- -	*1 Medi 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws sy'n Tarddu o'r Aifft (Cymru) 2004; maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru a deuant i rym ar 1 Medi 2004.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "archwilydd" ("*inspector*") yw unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi i fod yn archwilydd at ddibenion y Gorchymyn;

ystyr "y Gorchymyn" ("*the Order*") yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993(**3**);

ystyr "y Penderfyniad" ("*the Decision*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2004/4/EC sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau, dros dro, i gymryd mesurau brys yn erbyn lledaenu *Pseudomonas solanacearum* (Smith) Smith o ran yr Aifft(**4**));

ystyr "taten" ("*potato*") yw unrhyw gloronen *Solanum tuberosum* L; ac

mae i "tystysgrif ffytoiechydol" yr un ystyr â "*phytosanitary certificate*" yn erthygl 2(1) o'r Gorchymyn.

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 1993/1320; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/3213, 1995/1358 a 2929, 1996/25, 1165 a 3242, 1997/1145 a 2907, 1998/349, 1121 a 2245, 1999/2641 (Cy.8), 2001/2500 (Cy.203), 2001/3761 (Cy.310), 2002/1805 (Cy.175) a 2003/1851 (Cy. 201).
(**4**) OJ Rhif L2, 6.1.2004, t.50.

Mewnforion Tatws sy'n tarddu o'r Aifft

3.—(1) At ddibenion erthygl 3(1)(e) o'r Gorchymyn dim ond os yw'n cydymffurfio â pharagraff 1(b)(xi) o'r atodiad i'r Penderfyniad y bydd tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer tatws sy'n tarddu o'r Aifft yn dystysgrif ffytoiechydol ddilys.

(2) Ni fydd y gofyniad sy'n cael ei osod gan bwynt 25.8 o Adran 1 o Ran A Atodlen 4 i'r Gorchymyn (datganiad swyddogol bod tatws yn tarddu o ardaloedd lle nad yw'n hysbys bod *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al. yn digwydd) yn gymwys i fewnforion tatws sy'n tarddu o'r Aifft.

Cymeradwyo mangreoedd ar gyfer trin tatws sy'n tarddu o'r Aifft

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), ni chaiff neb, wrth gynnal busnes, gyflawni unrhyw driniaeth, gan gynnwys golchi, ar datws sy'n tarddu o'r Aifft ac eithrio mewn mangre y mae'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i chymeradwyo'n ysgrifenedig at y diben hwnnw.

(2) Rhaid i geisiadau am y gymeradwyaeth sy'n ofynnol o dan baragraff (1) gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(3) Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru atal neu ddirymu yn ysgrifenedig unrhyw gymeradwyaeth a roddwyd yn unol â pharagraff (1).

(4) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i bacio neu baratoi tatws mewn siop, bwyty, ffreutur, clwb, tafarn, ysgol, ysbyty neu sefydliad tebyg (gan gynnwys cerbyd neu stondin sefydlog neu symudol) i'w gyflwyno i'r defnyddiwr olaf.

Pwerau archwilydd

5.—(1) Nid yw darpariaethau'r rheoliad hwn yn lleihau effaith y pwerau a roddwyd i archwilydd gan y Gorchymyn.

(2) Pan fo ganddo sail resymol dros amau bod rheoliad 4(1) wedi'i dorri neu'n debyg o gael ei dorri, caiff archwilydd arfer y pŵer a roddwyd gan erthygl 22(2) o'r Gorchymyn o'i ddarllen ynghyd ag erthygl 24(1) i (3) o'r Gorchymyn, fel petai taten sy'n tarddu o'r Aifft yn blanhigyn sy'n cael ei gadw neu ei symud yn groes i'r Gorchymyn.

(3) Bydd unrhyw hysbysiad a gyflwynir yn rhinwedd paragraff (2) yn cael effaith fel petai wedi'i gyflwyno o dan erthygl 22(2) o'r Gorchymyn a bydd erthyglau 24(4) i (6), 26 i 28, 32 a 33(1)(b) ac (c) a (6) o'r Gorchymyn yn gymwys yn unol â hynny.

(4) Caiff archwilydd, er mwyn gwirio cydymffurfedd â rheoliad 4(1), arfer y pwerau a roddwyd gan erthygl 25 o'r Gorchymyn, fel petai'n gwirio cydymffurfedd â'r Gorchymyn.

(5) Bydd arfer pŵer yn rhinwedd paragraff (4) yn cael ei drin fel arfer y pŵ er at ddibenion y Gorchymyn a bydd erthyglau 28 a 33(1)(c) yn gymwys yn unol â hynny.

Ffioedd am samplu mewnforion tatws

6. Pan fo'r pŵer i gymryd samplau a roddwyd gan erthygl 25(1)(a) o'r Gorchymyn yn cael ei arfer gan archwilydd mewn perthynas â thatws sy'n tarddu o'r Aifft er mwyn darganfod, at ddibenion paragraff 3 o'r Atodiad i'r Penderfyniad, a yw'r tatws hynny wedi'u heintio â *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al., rhaid i'r mewnforiwr, os gofynnir iddo wneud hynny, dalu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ffi o £37.50 am bob eitem a samplwyd.